**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

15 Rhagfyr 2021

Annwyl gyfaill

Strategaeth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer y Chweched Senedd

Diolch i chi am ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd. Ar ôl mynd ati'n ofalus i ystyried y 139 o ymatebion a ddaeth i law a thystiolaeth arall yr ydym wedi'i chymryd drwy gydol yr hydref, rydym bellach wedi cyhoeddi ein strategaeth ar gyfer y Chweched Senedd. Mae crynodeb o'n strategaeth wedi'i atodi, ac mae'r ddogfen lawn ar gael ar ein tudalen we.

Mae'r strategaeth yn amlinellu ein gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol dros y pum mlynedd nesaf, a sut byddwn yn cydweithio fel Pwyllgor. Mae hefyd yn nodi themâu trawsbynciol yr ydym yn bwriadu eu hymwreiddio yn ein gwaith, ein blaenoriaethau ar gyfer blwyddyn gyntaf y Chweched Senedd, a materion posibl o flaenoriaeth ar gyfer y pedair blynedd nesaf.

Bydd ein strategaeth yn tywys ac yn llywio ein gwaith, ond ni fydd yn ein hatal rhab bod yn hyblyg neu ymateb i faterion sy'n codi, yn enwedig gan fod Cymru'n parhau i ymateb i heriau pandemig COVID-19.

Ar ran y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am eich cyfraniad, a'ch gwahodd i barhau i gymryd diddordeb yn ein gwaith.

Yn gywir

Russell George AS

Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.